| | |
|---|---|
| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| Dyddiad | 14 Mawrth 2017 |
| Teitl | Argymhellion Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Stryd |
| Aelod Cabinet | Y Cynghorydd John Wynn Jones |
| Pwrpas | I roddi diweddariad ar y cynnydd hyd yn hyn ar gyflawni argymhellion yr Ymchwiliad Craffu |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn ei gyfarfod 22 Medi, 2016 bu i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ystyried Adroddiad Ymchwiliad Craffu i Orfodaeth Stryd.

1.2 Bu i'r Pwyllgor Craffu dderbyn yr adroddiad a derbyn yr argymhellion ynddo [mae 9 mewn nifer] a cheisio adroddiad yn ôl gan yr Aelod Cabinet mewn tua 6-9 mis o'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn dilyn yr argymhellion.

1.3 Mae cyfnod yn agos i 6 mis wedi mynd heibio ers y penderfyniad hwnnw ac yn atodol mae diweddariad ar gyfer y 9 argymhelliad ddeilliodd o'r Ymchwiliad.

**2. ARGYMHELLIAD**

2.1 Bod y Pwyllgor Craffu yn ystyried a rhoddi sylwadau ar y diweddariad hwn.